**Sgwrs Sion Williams**
**Pysgotwr Masnachol o Sarn Mellteyrn**
**Sgwrs a roddwyd yn ystod Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Pen Llŷn**
**02.07.2022**

Mae tymhorau wedi diflannu i raddau. Rydan ni'n cael mwy o gyfnodau o dywydd rŵan, rydan ni'n cael cyfnodau braf a thawel am hir ac wedyn cyfnodau o wynt a glaw.

Beth ydan ni hefyd yn ei weld ydi yn ystod y gaeaf mae hi lot cynhesach. Ers talwm mi fyddan ni yn cael gaeafau ble byddai hi'n rhewi ac yn oer ac adeg hynny mi fydden ni yn stopio dal cimychiaid tua diolchgarwch tan tua mis Ebrill am fod tymheredd y môr yn oer. Ond ers tua deg i bymtheg mlynedd rŵan rydan ni yn eu dal nhw mwy neu lai rownd y flwyddyn.

Yn ôl ystadegau gwyddonol mae tymheredd y môr wedi codi 0.8 gradd selsiws ers i recordiau ddechrau cael eu cadw yn 1870. Tydi o ddim yn edrych yn lot ond mae o yn gynnydd sylweddol i dymheredd y môr.

Hefyd, yn ôl yr ystadegau, mae lefel y môr wedi codi 16.5cm ers troad y ganrif ddiwethaf sef 1901, sydd eto ddim yn edrych yn llawer efallai ond mae o yn lot dros amser.

Peth arall yr ydan ni'n ei weld wrth i'r môr gynhesu ydi ein bod yn cael lot mwy o rywogaethau estron yn ein dyfroedd ni. Mae yna newid yn y patrwm - rydan ni'n cael lot o grancod heglog yma (spider crabs) rwan - ugain mlynedd yn ôl doedden ni prin yn eu gweld nhw, ond eleni maen nhw yn bla ar hyd y lan yma. Maen nhw yn pentyrru yn y cewyll ac yn bwyta'r abwyd. Ugain mlynedd yn ôl doedden nhw ddim yma ond rŵan maen nhw yma mewn niferoedd mawr am fod tymheredd y môr jest abowt ddigon cynnes i'w cynnal nhw.

Hefyd o ran pysgod rydyn ni'n gweld rhywogaethau fel yr hyrddyn coch (red mullet) a'r merfog (bream) a'r gilt-head bream a'r merfog du (black bream) ac mae'r rhain yn rhywogaethau dŵr cynnes o fôr y canoldir a Bae Bisge a'r ffordd yna. Doedden ni erioed yn gweld y rheiny ond mae eu niferoedd yn cynyddu ac maen nhw'n aros yn hirach.

Peth arall rydan ni'n ei weld ydi bod patrwm pysgod fatha mecryll - sydd yn draddodiadol i'n moroedd ni -  wedi newid yn gyfan gwbl. Ers talwm fydden ni yn cael mecryll o fis Mai i fis Medi. Ond rŵan, prin ydan ni'n gweld mecryll yn y blynyddoedd diwethaf yma tan tua mis Awst - Medi, ac maen nhw'n aros ymlaen tan tua'r Nadolig. A rhywogaethau fel y penfras wedyn, mae'r rheiny mwy neu lai wedi diflannu o'r moroedd. Rydan ni yn gweld newid o ran amgylchedd y môr.

Felly, un rhan o'r gwaith dwi'n ei wneud rŵan ydi edrych ar y cranc heglog, a pha effaith mae'n ei gael ar y cimychiaid a'r crancod brown. Achos rydan ni wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y ddeng mlynedd diwethaf mewn crancod brown trwy'n dyfroedd ni trwy Gymru gyfan. Beth maen nhw'n feddwl sy'n digwydd ydi bod y crancod brown yn dod i'r lan ym mis Mai i gael gwared â'u hen gragen i dyfu mwy, ac ar yr un amser bod y crancod heglog yn dod i mewn, ac rydan ni'n meddwl eu bod nhw yn ysglyfaethu ar y crancod brown ac yn gwneud difrod i'w niferoedd. Felly mae'n rhan o waith dwi'n ei wneud eleni efo Prifysgol

Bangor, sef dal samplau o grancod heglog a gweld beth ydi cynnwys eu stumogau nhw, i gael gwybodaeth a data ar hyn er mwyn profi'r ffaith.

A'r un fath efo cimychiaid hefyd. Rydan ni'n gwneud astudiaeth o'r cimychiaid. Mae gen i un ardal eleni, bob dim dwi'n ei ddal yno, mawr a bach, maen nhw'n cael eu 'notcho' a'u rhoi yn ôl ac yna rydan ni'n asesu cryfder y stoc, ac mae hyn i gyd yn mynd i fod yn bwysig er mwyn i ni fedru addasu a goroesi os ydi'r newidiadau yma'n mynd i barhau.

Dafydd: Efo Prifysgol Bangor wyt ti'n cydweithio i gofnodi'r pethau yma?

Ia. Roedd Prifysgol Bangor yn gofyn am wirfoddolwyr i gymryd rhan yn y gwaith gwyddonol yma. Ryda i wedi bod yn gwneud ers tua phymtheg mlynedd rŵan. Rydan ni wedi bod yn gwneud astudiaeth ar grancod a draenogiaid y môr. Dwi wrthi hefyd yn gwneud gwaith ymchwil efo Seafast i nifer draenogod y môr.

Mae o'n bwysig ein bod ni fel pysgotwyr yn cydweithio efo gwyddonwyr a gwyddoniaeth i gael y data cywir a'r wybodaeth fel ein bod ni yn medru addasu a chadw ein busnesau ni yn ffynnu er mwyn medru cyflenwi bwyd i'r boblogaeth.

Hefyd, peth arall rydan ni'n weld sydd yn bwysig ac rydan ni wedi codi'r peth efo cynulliad Cymru a DEFRA ydi bod gofyn iddyn nhw fuddsoddi yn ein diwydiant pysgota ni fel ein bod ni'n cael technoleg arall, unai batri trydan - trydaneiddio - neu hydrogen, i bweru ein cychod pysgota ni.

Mae'r rhan fwyaf o bysgotwyr unai yn defnyddio peiriannau disel neu fel fi beirannau petrol felly rydan ni yn ddibynnol ar olew. A llynges fach sydd gennym ni yng Nghymru, tua 450 o gychod, a gan eu bod nhw wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd, mi fasan ni yn licio petasent yn medru rhoi rhyw fath o arian yn lle datganiadau, i gefnogi busnesau yng Nghymru fel ein bod ni yn medru newid i weithio mewn ffordd well. Ein galluogi i ddigarboneiddio'r llynges bysgota. Mi fasa fo o ddiddordeb ac o ddefnydd i'r diwydiant.

Dafydd: Oes yna nifer o bethe felly y basat ti yn licio eu gweld yn digwydd i ddelio efo'r argyfwng hinsawdd fel hyn felly?

Oes, oes mae o'n bwysig ein bod ni. Rydan ni mewn cyfnod o amser rŵan ble'r ydan ni'n gweld trawsnewid o ran cerbydau ac ati, mae am gymryd amser, ond mi fasan ni yn licio cael yr un buddsoddiad i'r diwydiant pysgota, achos rydan ni yn cyflenwi bwyd ac mae o'n gyfle euraidd i fuddsoddi. Mae yna gwmni yn Ynys Wyth (Isle of white) o'r enw Cheetah Marine, ac maen nhw wedi dechrau sbïo mewn i roi peiriannau trydan ar gychod pysgota. Y problemau mwyaf ydi'r batris a'r pwysau ar hyn o bryd, ac mae una gwmnïau eraill yn gwneud peiriannau hybrid, ond fel mae technoleg yn dod yn ei flaen mae'n bwysig ein bod ni hefyd yn y diwydiant pysgota yn symud efo'r dechnoleg.

Dafydd - diolch yn fawr iawn Siôn. Mae beth rwyt ti wedi ei ddweud yn hynod o ddiddorol ac yn hynod o berthnasol hefyd. Mae'n siŵr o annog trafodaeth yma'r prynhawn yma dros y misoedd nesaf. Mi fedrwn ni gadw mewn cysylltiad efo chdi wrth i ni barhau.

Siôn - Ia, cadwch mewn cysylltiad ac os yn bosib os faswn i yn licio cael cofnodion o’r cyfarfod heddiw gan fod i wedi methu mynychu heddiw.

Dafydd - Mae Siôn yn un o aelodau’r cynulliad oedd methu dod heddiw am resymau amlwg ond mae’n wych ein bod wedi cysylltu efo chdi diolch i dechnoleg.

Siôn - Croeso mawr, hwyl i chi.